# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Teams**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Medi 2020

Amser: 09.40 - 10.20

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Andrew RT Davies AS<br>David J Rowlands AS |
| Tystion: | Owain Roberts, Head of Table Office, Comisiwn y Senedd |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Huw Williams (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Daniel Collier (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Adroddiadau Blynyddol Grwpiau Trawsbleidiol: Trafod Adroddiad 2019-20

2.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Owain Roberts, Pennaeth y Swyddfa Gyflwyno, Comisiwn y Senedd i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Grwpiau Trawsbleidiol 2019-20.

2.2 Trafododd y Pwyllgor sut mae'r broses o adrodd ar grwpiau trawsbleidiol wedi gweithio yn y Bumed Senedd a chytunodd i gynnwys hyn fel rhan o'i adroddiad gwaddol.

## 3 Recriwtio'r Comisiynydd Safonau

3.1 Trafododd y Pwyllgor y broses ar gyfer recriwtio Comisiynydd Safonau newydd.

3.2 Nododd y Pwyllgor y byddai'r cyfrifoldeb am y trefniadau gweinyddol yn cael ei ddirprwyo i Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried Disgrifiad Swydd drafft mewn cyfarfod sydd i ddod.

## 4 Gweithdrefnau ac arferion gwaith y Pwyllgor

4.1 Trafododd y Pwyllgor ei weithdrefnau a'i arferion gwaith ar gyfer trin adroddiadau gan y Comisiynydd Safonau.